Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Disgrifiad Swydd

**CYFARWYDDIAETH:** Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant

**ADRAN:** Gofal Cymdeithasol i Blant / Tîm IAA a Diogelu

**SWYDD:** Uwch-ymarferydd – IAA a Diogelu

**GRADD Y SWYDD:** GR13

**YN ATEBOL I'R:** Rheolwr Tîm – IAA

---

**DIBEN Y SWYDD:**
Ymgymryd ag Asesiadau Gofal a Chymorth a sicrhau ansawdd gwaith aelodau eraill o'r tîm.
Gweithredu fel y swyddog gwneud penderfyniadau allweddol yn y pwynt cyswllt cychwynnol fel rhan o'r trefniadau Gwybodaeth, Cyngor a Chynhorthwy fel y nodwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
Cymryd rhan yng ngweithrediad Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol Pen-y-bont ar Ogwr (MASH).

---

**PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:**

- Gweithio gyda theuluoedd mewn sefyllfaoedd cymhleth, gan ddarparu ymateb cydgysylltiedig i anghenion a phryderon a nodwyd. Bydd hyn yn cynnwys cynnal Asesiadau lle y bo angen i benderfynu ar anghenion cymwys.
- Gweithredu fel y swyddog sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ar y pwynt cyswllt cychwynnol i'r Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth yn MASH.
- Rheoli llinell, cynghori a darparu ymgynghori proffesiynol/mentora i weithwyr cymdeithasol, staff heb gymhwyso a myfyrwyr gwaith cymdeithasol.
- Datblygu sylfaen sgiliau a gwybodaeth y tîm, gan nodi anghenion hyfforddi a datblygu yn ôl y gofyn.
- Cyfrannu at ddarparu gwasanaethau, safonau arfer a pherfformiad cyffredinol y tîm.
- Cynnal datblygiad personol a phroffesiynol i fodloni gofynion newidiol y swydd, cymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi a datblygu priodol.
- Gweithio gyda theuluoedd â sefyllfaoedd cymhleth a darparu ymateb cryf i anghenion a phryderon a nodwyd. Bydd hyn yn cynnwys:
    - Asesiadau Gofal a Chymorth.
    - Ymchwiliadau amddiffyn plant a chynllunio ac adolygu gofal.
    - Gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal.
    - Gwaith gofal a chymorth cymhleth arall fel y bo'n ofynnol.
    - Achosion Gofal

- Cadeirio a chymryd rhan mewn cyfarfodydd amlasiantaethol

- Dirprwyo ar ran y Rheolwr Tîm yn ôl yr angen.

## DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

### Iechyd a Diogelwch
Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y Polisi Iechyd a Diogelwch.

### Cyfle Cyfartal
Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

### Diogelu
Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

### Adolygiad a Hawl i Amrywio
Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

### Gwiriad Cofnodion Troseddol
Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Manyleb y Person

## Uwch-ymarferydd – IAA a Diogelu

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol.

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant** | • Mae cymhwyster gwaith cymdeithasol cydnabyddedig, e.e., CQSW, CSS, Dip SW, Gradd mewn Gwaith Cymdeithasol a chofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. | Ydy | Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais. |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | • O leiaf tair blynedd o brofiad ôl-gymhwyso ym maes gwasanaethau plant.<br>• Gwybodaeth am ddeddfwriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a'i pherthnasedd i wasanaethau i blant.<br>• Gwybodaeth/sgiliau ym maes ymchwilio a gweithdrefnau amddiffyn plant/asesu/rheoli gofal, systemau gwybodaeth a materion sicrhau ansawdd.<br>• Profiad o weithio gyda phlant a theuluoedd ag anghenion cymhleth sy'n ei gwneud yn ofynnol bodloni lefel uchel o arbenigedd.<br>• Profiad o gymryd rhan mewn rhaglenni wedi'u cynllunio i ddatblygu sgiliau staff e.e. monitro, goruchwylio myfyrwyr, staff cymorth.<br>• Profiad o oruchwylio, mentora a/neu reoli staff. | Ydy<br>Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais a phroses ddethol. |
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol** | • Gallu gwneud penderfyniadau'n briodol.<br>• Sgiliau ardderchog ym maes ymchwilio ac asesu.<br>• Gallu datrys problemau wrth weithio dan bwysau.<br>• Gallu darparu perthnasoedd gwaith adeiladol â chydweithwyr ac asiantaethau eraill.<br>• Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu da, gan gynnwys cyfathrebu wyneb yn wyneb a gwaith ysgrifenedig. | Ydy<br>Ydy | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |

| Priodoleddau | Gofynion | Hanfodol | Dull Gwerthuso / Profi |
|---|---|---|---|
| **Sgiliau a Rhinweddau Personol (Parhad)** | • Sgiliau TG effeithiol i wneud y defnydd gorau posibl o'r cyfryngau cyfathrebu sydd ar gael i ledaenu gwybodaeth a chynnal cofnodion seiliedig ar gyfrifiaduron yn unol â gofynion y llywodraeth | | Cyfweliad, ffurflen gais, a phroses ddethol. |
| | • Gallu ymdrin â materion sensitif, rheoli barn a disgwyliadau croes ac ymdopi â materion ac ymddygiad anrhagweladwy. | | |
| | • Gallu dangos ymroddiad i amddiffyn plant a phobl ifanc a gwerthfawrogi amrywiaeth a pharch ar gyfer ieithoedd, crefyddau a diwylliannau eraill. | | |
| | • Gallu cyflwyno adroddiadau a gwybodaeth yn groyw. | Ydy | |
| | • Gallu deall gwybodaeth gymhleth. | | |
| | • Gallu meddwl yn glir a dangos sgiliau trefnu da | Ydy | |
| | • Gallu diffinio a chyflawni targedau. | | |
| | • Trwydded yrru gyda mynediad i gerbyd. | Ydy | |
| | • Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | |